

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	9fed o Orffennaf 2019
TEITL:	Adroddiad yr Aelod Cabinet
AWDUR:	Cynghorydd Nia Jeffreys
PWRPAS YR ADRODDIAD	Rhoi diweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

1. Comisiynydd y Gymraeg

Cafwyd cyfarfod adeiladol a buddiol iawn gyda'r Comisiynydd newydd, Aled Roberts, ar yr 20fed o Fai, lle y trafodwyd nifer o faterion o ddiddordeb, o newidiadau i'r drefn gwynion i'r math o feysydd y mae gan y Comisiynydd ddiddordeb penodol ynddynt.

Adroddwyd bod y Comisiynydd yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth er mwyn datblygu'r ddealltwriaeth a chael eglurder am bwy sydd yn gyfrifol ac yn gwneud be o safbwynt hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hyn wedi codi yn sgil nifer o newidiadau dros y blyneddau diwethaf wrth i isadran y Gymraeg y Llywodraeth lansio nifer o brosiectau ac ymgyrchoedd eu hunain, ac wrth i swyddfa'r Comisiynydd allu gwneud llai o waith hybu.

Cafwyd trafodaeth arbennig o ddifyr am ddefnydd iaith a'r ffactorau hynny sydd yn atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'n amlwg bod hwn yn faes sydd o ddiddordeb i'r Comisiynydd newydd, ac yn faes y dylem fod yn ystyried gwneud mwy o waith ymchwil ynddo. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun dewisiadau iaith pobl wrth ddefnyddio technoleg.

Roedd un o swyddogion y Comisiynydd hefyd wedi mynychu un o gyfarfodydd diweddar yr Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn trafod syniadau ar gyfer sut y gallai'r grŵp hwnnw ategu gwaith y Comisiynydd.

2. Prosiectau Cynllun y Cyngor

Busnesau yn Defnyddio'r Gymraeg

Fel rhan o gynllun Arfor, mae prosiect ar y cyd wedi ei gynnig rhwng y 4 sir (Gwynedd, Môn, Ceredigion, Caerfyrddin) fydd yn edrych ar lunio ymgyrch ar-lein i roi hwb i ddefnydd busnesau o'r Gymraeg.

Cymraeg yn y Gweithle

Hyd at ddiwedd mis Mehefin, roedd gwaith y dynodiadau iaith wedi cyrraedd 874 o unigolion mewn 34 o wasanaethau rheng flaen e.e. Cyswllt Cwsmer a Chofrestru, Ailgylchu, Morwrol a Pharciau Gwledig a Chyfiawnder Ieuencid.

Mae'r gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod aelodau o staff y Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog i bobl Gwynedd. Os oes bwlch rhwng gofynion iaith y swydd a gallu presennol yr unigolyn, byddwn hyfforddiant addas yn cael ei gynnig er mwyn cau'r bwlch hwnnw.

Rhan arall o'r gwaith ydi cefnogi siaradwyr mamiaith neu ddysgwyr rhugl i barhau i allu defnyddio'r iaith yn hyderus o ddydd i ddydd. I wneud hyn, mae swyddogion Dysgu a Datblygu Iaith yn gosod Tip Cymraeg y Mis ar y fewnrwyd staff er mwyn rhoi awgrymiadau syml i staff ar sut i wella neu gynnal safon eu Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o bethau, megis cyngor defnyddiol am ramadeg a sut i wneud y defnydd gorau o adnoddau digidol Cymraeg.

Mae'r Tip wedi cael ymateb da iawn, gyda sawl aelod o staff wedi eu canmol a dweud bod y Tip wedi'u help gyda'u gwaith bob dydd.

Mae ymateb cadarnhaol wedi dod o'r tu allan i'r Sefydliad hefyd gan fod y swyddogion yn cynnwys y tip fel baner ar waelod eu negeseuon e-bost, e.e. gan Mared Grug, Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn; a Hywel Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg a Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltiad Staff, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Bellach mae Nant Gwrtheyrn yn defnyddio baner e-bost Tip Cymraeg y Mis yn eu negeseuon e-byst eu hunain, sy'n cyrraedd dysgwyr a sefydliadau ar draws Cymru.

3. Datblygiadau eraill

Mae prosiect cyffrous wedi ei gychwyn yn ardal Bangor, drwy bartneriaeth rhwng Menter Iaith Bangor a Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru a Chanolfan Bedwyr Prifysgol Bangor.

Daeth y partneriaid at ei gilydd yn ddiweddar i lunio tendr llwyddiannus ar gyfer prosiect gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i gynnal cynllun prosiect fydd yn targedu 30 o siaradwyr Cymraeg anfoddog yn ninas Bangor.

Y nod yw dod a detholiad o bobl, yn cynnwys rhieni plant oed ysgol, gwirfoddolwyr yng Nghastell Penrhyn a Phontio, a staff cyflogedig o gyrff trydydd sector, preifat a cyhoeddus ym Mangor, at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn eu helpu i adennill eu hyder i siarad y Gymraeg unwaith yn rhagor. Y gobaith ydi y bydd modd i'r partneriaid ddysgu rhywbeth o'r cynllun yma fydd yn helpu i dargedu siaradwyr anfoddog neu ddihyder mewn ardaloedd eraill.

Hoffwn longyfarch y partneriaid a dymuno pob lwc iddynt efo'r prosiect.